Polisi AAA

Rhagair

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gosod blaenoriaeth uchel ar wella canlyniadau a chodi dyheadau ein plant a phobl ifanc gydag Anghenion Addysgol Arbennig.

Mae'r Polisi'n canolbwyntio ar addysg ond hefyd yn cydnabod y gwasanaethau eraill sy'n chwarae rhan i gyflawni'r uchelgais hon. Bydd ein llwyddiant yn dibynnu ar effeithiolrwydd y bartneriaeth rhyngom ni a'r ysgolion, colegau a lleoliadau yn y sectorau a gynhelir ac nas cynhelir, iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys gwasanaethau oedolion a'r sector gwirfoddol.

Ian Roberts
Pennaeth Addysg

Cynnwys

Rhagair		**1**
1.	**Cyflwyniad**	**3**
2.	**Blaenoriaethau Strategol**	**4**
3.	**Blaenoriaethau'r Gwasanaeth Cynhwysiant**	**5**
4.	**Egwyddorion**	**6**
5.	**Cyd-destun**	**7**
6.	**Ymateb Graddedig**	**9**
7.	**Proses Statudol**	**12**
8.	**Gwneud Penderfyniadau**	**14**
9.	**Datganiadau**	**15**
10.	**Darpariaeth**	**17**
11.	**Apeliadau**	**18**
12.	**Trefniadau Monitro**	**19**
13.	**Gwaith Partneriaeth**	**20**
14.	**Hyfforddiant**	**21**
15.	**Cyllid**	**22**

1 Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, fel yr Awdurdod Lleol, yn cydnabod bod gan bob dysgwr anghenion unigol. Mae'r Fframwaith Polisi Anghenion Addysgol Arbennig hwn yn:-

- gosod y cyd-destun;
- darparu diffiniad o anghenion addysgol arbennig (AAA) a darpariaeth anghenion addysgol arbennig;
- amlinellu'r egwyddorion allweddol sy'n tanategu ymagwedd yr Awdurdod i ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anghenion addysgol arbennig;
- ymwneud â phlant a phobl ifanc gydag anghenion addysgol arbennig yn ein hysgolion a lleoliadau prif ffrwd ac arbennig, fel y nodwyd yng Nghod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2002).
- amlinellu'r cyfrifoldeb a'r ymrwymiad i ddarparu ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc yn unol â'u hanghenion gan ddefnyddio amrywiaeth o gefnogaeth, ymyrraeth a darpariaeth;
- amlinellu'r ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth â'r disgyblion, rhieni, ysgolion a'r holl asiantaethau perthnasol;
- cydnabod gwaith partneriaeth - disgyblion, rhieni, ysgolion, asiantaethau ac ati.

2 Blaenoriaethau Strategol

Blaenoriaethau Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2015 i 2017

Mae'r Fframwaith Strategaeth AAA yn cyfrannu at Gynllun Cyngor Wrecsam sy'n nodi tair thema strategol – Yr Economi, Pobl a Lle – ac un thema gorfforaethol sef Trefnu - ymdrechu am ragoriaeth.



Mae'r themâu strategol a chorfforaethol yn cynnwys nifer o ganlyniadau blaenoriaethol. Mae'r strategaeth fframwaith AAA yn cyfrannu'n bennaf at y cynlluniau i ddiwallu thema strategol: Pobl.

Canlyniadau Blaenoriaethol

PE1 "Mae gan bob plentyn a pherson ifanc ddyheadau cadarnhaol, yn dysgu a chyflawni eu potensial"

Blaenoriaethau Gwella Addysg

- Mynd i'r afael ag amrywiad er mwyn gwella canlyniadau yn gyflym
- Atgyfnerthu arweinyddiaeth a dysgu ymhellach.
- Atgyfnerthu strategaethau cymorth ymddygiad ymhellach.
- Defnyddio adnoddau'n effeithiol i ddarparu darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig.

3 Blaenoriaethau'r Gwasanaeth Cynhwysiant

Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant yn yr Awdurdod Lleol yn gyfrifol am reoli darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae gan y Gwasanaeth Cynhwysiant y flaenoriaeth drosfwaol ganlynol:-

3.1 Defnyddio adnoddau'n effeithiol i wella darpariaeth AAA.

Ein Blaenoriaethau

Bydd y blaenoriaethau canlynol yn ein cynorthwyo i gyflawni'r weledigaeth hon ar gyfer holl Blant a Phobl Ifanc gydag AAA:

Blaenoriaeth 1

Darparu hyfforddiant effeithiol i ddatblygu capasiti

Blaenoriaeth 2

Adolygu darpariaeth i wella canlyniadau dysgu AAA

Blaenoriaeth 3

Darparu gwerth am arian o fewn y cyfyngiadau ariannol

Blaenoriaeth 4

Defnyddio data yn effeithiol i fesur cynnydd i ddisgyblion ag ADY

Blaenoriaeth 5

Paratoi ar gyfer diwygiadau ADY sydd ar ddod

4 Egwyddorion

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â'r egwyddorion allweddol a amlinellwyd yng Nghod Ymarfer AAA Cymru, 2002:

- dylai bod anghenion disgybl gydag anghenion addysgol arbennig yn cael eu diwallu,
- bydd anghenion addysgol arbennig plant fel arfer yn cael eu diwallu mewn lleoliadau ysgol y brif ffrwd;
- bydd safbwyntiau'r disgybl yn cael eu ceisio a'u hystyried;
- mae gan rieni a gofalwyr rôl allweddol i'w chwarae i gefnogi addysg eu plentyn;
- dylai bod plant gydag anghenion addysgol arbennig yn cael cynnig mynediad llawn at addysg eang, gytbwys a pherthnasol ar y Cwricwlwm Cenedlaethol a Fframwaith Cyfnod Sylfaen.

Yn ogystal â hyn, mae'r Awdurdod Lleol yn credu y:

- dylai'r holl ysgolion gydnabod ac ymateb i anghenion amrywiol eu dysgwyr, tra'n cynnig cefnogaeth a gwasanaethau i gyd-fynd â'r anghenion hynny;
- dylai bod dyraniad teg a chyfiawn o adnoddau ar gael i gefnogi'r holl blant a phobl ifanc gydag anghenion addysgol arbennig;
- dylai bod y defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau yn arwain y broses o wneud penderfyniadau a dyrannu'r adnoddau hynny;
- dylai bod patrwm ystyrlon o ddarpariaeth ar draws yr Awdurdod Lleol i gefnogi anghenion plant gydag anghenion addysgol arbennig.

5 Cyd-destun

Mae Awdurdod Lleol Wrecsam yn cydymffurfio â Fframwaith Cyfreithiol Presennol Cymru sy'n cynnwys:-

- Cod Ymarfer AAA Ar Gyfer Cymru (2002)
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Addysg 1996
- Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysg Arbennig) (Cymru) 2002

5.1 Cod Ymarfer AAA Ar Gyfer Cymru (2002)

Mae Deddf Addysg 1996 yn ei gwneud yn ofynnol bod Cod Ymarfer yn cael ei gynhyrchu yn rhoi canllawiau ymarferol ynglŷn â sut y dylai awdurdodau lleol ac ysgolion ymgymryd â'u swyddogaethau mewn perthynas ag AAA.

Mae'r Cod Ymarfer AAA presennol sy'n benodol ar gyfer Cymru wedi bod mewn grym ers 1 Ebrill 2002.

Mae'r gyfraith yn nodi bod yn rhaid i'r holl asiantaethau roi sylw i'r Cod Ymarfer ac, er y gallant ddewis sut i gyflawni eu dyletswyddau statudol, mae'n rhaid iddynt wneud hynny yn unol â'r canllawiau y mae'r Cod yn eu darparu.

Mae'r Cod yn nodi'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn ar gyfer asesu a oes gan ddysgwr AAA a gosod ymyraethau er mwyn mynd i'r afael â nhw.

5.2 Diffiniad o Anghenion Addysgol Arbennig

Mae Deddf Addysg 1996 (yn Rhan IV) yn darparu diffiniadau amrywiol mewn perthynas ag Anghenion Addysgol Arbennig:-

5.2.1 Anghenion Addysgol Arbennig

Mae disgybl neu berson ifanc yn cael eu diffinio fel unigolyn ag anghenion addysgol arbennig yng Nghod Ymarfer AAA Cymru os oes ganddynt anhawster neu anabledd sydd angen darpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer.

Mae gan ddisgybl anhawster dysgu os:-

(a) Ydynt yn ei chael yn llawer anoddach dysgu na mwyafrif y disgyblion eraill o'r un oedran; neu

(b) Oes ganddynt anabledd sy'n atal neu'n eu rhwystro rhag gwneud defnydd o gyfleusterau addysgol sy'n cael eu darparu'n gyffredinol ar gyfer eraill o'r un oedran mewn ysgolion yn ardal yr Awdurdod Lleol.

(c) O dan oedran ysgol orfodol ac o fewn y diffiniad (a) neu (b) uchod ac y byddent yn gwneud hynny pe na bai darpariaeth addysgol arbennig yn cael ei darparu ar eu cyfer.

5.2.2 Mae darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig yn golygu:

(a) Ar gyfer plant dyflwydd oed neu hŷn, darpariaeth addysgol sy'n ychwaneg at, neu'n wahanol i, ddarpariaeth addysg a wnaed yn gyffredinol ar gyfer plant o'r un oedran mewn ysgolion a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol, heblaw ysgolion arbennig, yn yr ardal.

(b) Ar gyfer plant o dan 2 oed, darpariaeth addysgol o unrhyw fath.

(Deddf Addysg 1996, Adran 312)

Mae angen cymryd gofal penodol wrth nodi ac asesu Anghenion Addysgol Arbennig plant heb Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf.

Ni ddylid nodi bod diffyg gallu mewn Cymraeg neu Saesneg yn gyfartal ag anawsterau dysgu fel y'i deellir yng Nghod Ymarfer AAA Cymru.

(Cod Ymarfer AAA Cymru (2002), Adran 6.14-6.16)

5.2.3 Anabledd

Diffinnir anabledd yn y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) fel:

Mae gan unigolyn anabledd os oes ganddo ef neu ganddi hi nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hir dymor ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau dydd i ddydd arferol.

{Deddf Cydraddoldeb (2010) - Adran 6

*O dan Deddf Cydraddoldeb 2010, mewn perthynas ag anabledd fel nodwedd a ddiogelir:

(a) Mae cyfeiriad at berson sydd â nodwedd a ddiogelir yn cyfeirio at berson sydd ag anabledd penodol.

(b) Mae cyfeiriad at unigolion sy'n rhannu nodwedd a ddiogelir yn gyfeiriad at unigolion sydd â'r un anabledd.

Deddf Cydraddoldeb (2010)

6 Ymateb Graddedig

6.1 Beth yw Ymateb Graddedig Cod Ymarfer AAA?

Model gweithredu ac ymyrraeth mewn ysgolion a lleoliadau i gynorthwyo plant sydd ag anghenion addysgol arbennig.

Mae'r ymagwedd yn cydnabod bod continwwm o AAA a lle bo'n briodol efallai y bydd angen cynyddu'r arbenigedd arbenigol. Mae camau'r ymateb graddedig fel a ganlyn:

- Gweithredu yn y Dosbarth
- Gweithredu gan yr Ysgol
- Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy
- Asesiad Statudol
- Datganiad AAA

Gweithredu yn y Dosbarth (5:39)

- Dylai asesiad ysgol o gynnydd plant unigol ddarparu gwybodaeth ynglŷn â meysydd lle nad yw disgybl yn cyflawni cynnydd yn foddhaol hyd yn oed pan fo'r arddull o addysgu a'r ffactorau canlynol wedi'u gwahaniaethu:
  - Amgylchedd
  - Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu
  - Adnoddau
  - Eithriadau
  - Canlyniadau

Gweithredu gan yr Ysgol (5:43-5:48 – cynradd)

- Pan fydd athro dosbarth neu'r Cydlynydd AAA yn nodi bod gan ddisgybl AAA dylai'r athro dosbarth ddarparu ymyraethau sy'n ychwanegu at neu'n wahanol i'r hyn a ddarperir fel rhan o gynnig cwricwlwm a strategaethau gwahaniaethu arferol yr ysgol.

Gweithredu gan yr Ysgol (6:50 - uwchradd)

- Pan fydd athro dosbarth, aelod o'r tîm bugeiliol neu'r Cydlynydd AAA yn nodi bod gan ddisgybl AAA dylent ddarparu ymyraethau sy'n **ychwanegu** at neu'n **wahanol** i'r hyn a ddarperir fel rhan o gynnig cwricwlwm a strategaethau gwahaniaethu arferol yr ysgol.
- Cyn symud i'r cam Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, rhaid i ysgolion sicrhau, er gwaethaf gweithredu ymyrraeth berthnasol a phwrpasol dros

gyfnod parhaus o amser, bod cynnydd y disgybl yn gyfyngedig ac felly y cytunir gyda'r rhieni bod angen i asiantaethau allanol gymryd rhan gyda Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Dylai'r dystiolaeth gynnwys o leiaf dau CAU/CYU wedi'u gwerthuso ar lefel Gweithredu gan yr Ysgol.

Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy: (5:54-5:61-cynradd / 6:62 – 6:69 - uwchradd)

- "Mae cais am gymorth gan wasanaethau allanol yn debygol o ddilyn penderfyniad gan Gydlynydd AAA a chydweithwyr, mewn ymgynghoriad â rhieni, mewn cyfarfod i adolygu Cynllun Addysg Unigol y disgybl. Dylai ysgolion ymgynghori ag arbenigwyr bob tro cyn cymryd camau ar ran disgybl drwy Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy." "Mewn Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy bydd gwasanaethau cymorth allanol, sy'n cael eu darparu gan yr AALl ac asiantaethau allanol, fel arfer yn gweld y disgybl, yn yr ysgol os yw'n briodol ac yn ymarferol, er mwyn iddynt gynghori addysgu ar y Cynlluniau Addysg Unigol newydd gyda thargedau newydd a strategaeth gysylltiedig, darparu mwy o asesiadau arbenigol sy'n gallu hysbysu cynllunio a mesur cynnydd y disgybl, rhoi cyngor ar y defnydd o strategaethau newydd neu arbenigol ar ddeunyddiau a darparu cymorth ar gyfer gweithgareddau penodol mewn rhai achosion. Bydd y math o gyngor a chefnogaeth sydd ar gael ar gyfer yr ysgolion yn amrywio yn ôl y polisïau lleol."

- Gall ysgolion wneud cais am adnoddau / darpariaeth ychwanegol mewn Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy ar gyfer disgyblion unigol i'w hystyried gan Banel Cymedroli'r Awdurdod Lleol (gweler yr adran Gwneud Penderfyniadau).

- Bydd yn rhaid i ysgolion dystiolaethu er gwaethaf yr ymyraethau hirdymor gan asiantaethau allanol mewn Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy ac i dystiolaethu i arddangos y defnydd o adnoddau presennol yr ysgol, fod y disgybl wedi cyflawni cynnydd cyfyngedig.

7 Proses Asesiad Statudol

Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol yw proses yr Asesiad Statudol mewn cydweithrediad agos gyda'r disgybl, rhieni, yr ysgol ac asiantaethau allanol.

Gellir derbyn cais am Asesiad Statudol gan:

- yr ysgol
- rhieni
- Bwrdd Iechyd Lleol
- Awdurdod Lleol mewn cydweithrediad ag Adran 323 Deddf Addysg 1996.
- corff cyfrifol fel y diffinnir gan Adran 329A Deddf Addysg 1996.

Mae Awdurdod Lleol Wrecsam yn cynnal Asesiad Statudol yn unol â deddfwriaeth fel y disgrifir yng Nghod Ymarfer AAA Cymru (2002).

Cynhelir Asesiad Statudol pan fydd y dystiolaeth a ddarparwyd yn dangos fod gan y disgybl anawsterau sylweddol ac er gwaethaf cymorth a chefnogaeth ychydig iawn o gynnydd y mae'r disgybl wedi'i gyflawni.

7.1 Cyfranogiad Disgybl a Rhiant

7.1.1 Cyfranogiad Rhieni

Mae'n bwysig bod Awdurdod Lleol Wrecsam yn gweithio'n agos gyda rhieni / gofalwyr disgyblion gydag AAA a bod eu safbwyntiau'n cael eu hystyried. Anogir rhieni i ddarparu eu safbwyntiau yn ystod pob cam o'r broses AAA ac i gyfarfod gyda'u swyddog enwebedig fel y bo'n briodol.

- Anogir rhieni i lenwi'r holl ddogfennau i sicrhau yr ystyrir eu safbwyntiau.
- Yn ystod blynyddoedd pontio, dylid annog rhieni i lenwi'r ffurflenni derbyn perthnasol.
- Gellir cyfeirio rhieni at y Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni ar 358526, os oes angen cefnogaeth arnynt.

7.1.2 Cymorth i Rieni

Darperir y Gwasanaethau Partneriaethau Rhieni ar draws Bwrdeistref Sirol Wrecsam gan SNAP Cymru.

Mae gan SNAP Cymru llawer o brofiad, arbenigedd a gwybodaeth ynglŷn â gweithio gyda theuluoedd a sefydliadau eraill. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod gan rieni plant ag anghenion addysgol arbennig fynediad i gyngor ac arweiniad annibynnol fel y gallant wneud penderfyniadau priodol a gwybodus. Mae'r Gwasanaeth Partneriaethau Rhieni am ddim i deuluoedd ac yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ddiduedd a manwl gywir.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ynglŷn â SNAP Cymru ar eu gwefan www.snapcymru.org. Gall rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol ddefnyddio'r gwasanaeth yn y ffyrdd canlynol:

e-bost: helpline@snapcymru.org
gwefan: www.snapcymru.org/contact
rhif ffôn: 0808 801 0608 (dydd Llun - ddydd Gwener 9.30 am - 4.30 pm)

Trefniadau Cyfryngu

Mae Gwasanaeth Datrys Anghytundebau ar gael sydd hefyd yn cael ei ddarparu gan SNAP Cymru (manylion cyswllt uchod).

Mae SNAP Cymru yn wasanaeth yng Ngogledd Cymru a gall gynorthwyo i ddatrys unrhyw anghytundebau rhwng yr Awdurdod Lleol a'r rhieni.

7.1.3 Cyfranogiad Disgyblion

Mae cyfranogiad disgyblion yn elfen bwysig o broses AAA a dylid annog disgyblion a'u cefnogi i gyfrannu eu safbwyntiau pryd bynnag y bo modd a dylid eu hannog i fynychu a chymryd rhan yn y cyfarfod.

7.1.4 Cymorth i ddisgyblion

Eirioli

Mae gwasanaeth eirioli ail lais ar gael ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc yn Wrecsam.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Thîm Eirioli Ail Lais ar 01978 358900 neu secondvoice@wrexham.gov.uk

8 Gwneud Penderfyniadau

Mae Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2002 (3:74 a 8.9) yn cynghori ALl i sefydlu grwpiau amlasiantaeth i gymedroli penderfyniadau mewn modd cyson a chadarn. Rôl y grŵp amlasiantaeth hwn yw:

- Cadw at God Ymarfer AAA 2002 a Deddf Cydraddoldeb 2010
- Darparu cynrychiolaeth gytbwys o ystod eang o wasanaethau arbenigol i wneud penderfyniadau gwybodus, gwrthrychol, teg ar asesiadau statudol, darpariaeth a lleoliad ar gyfer disgyblion o bob oedran a'r holl ADY
- Gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer adnoddau / darpariaeth ychwanegol ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy ac ar gyfer Asesiadau Statudol. Mae'r penderfyniadau hyn yn cynnwys: P'un ai i gyhoeddi Datganiad AAA (Gweler Adran 9 i gael manylion)
  - P'un ai i addasu neu ddileu Datganiad AAA.
  - P'un ai i ddarparu adnoddau / darpariaethau ychwanegol ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy.
  - A yw'r disgyblion angen mynediad i leoliad asesiad arbennig.
  - A ddylid atgyfeirio at Baneli eraill Awdurdod Lleol Wrecsam fel y bo'n briodol

Mae'r penderfyniadau hyn yn seiliedig ar y wybodaeth ysgrifenedig a dderbyniwyd yn unol â'r meini prawf ar gyfer Asesiad Statudol / Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy.

www.wrexham.gov.uk/english/education/Special_Educational-Needs.htm

Gwneir penderfyniadau am ddisgyblion cyn-ysgol gydag AAA mewn Panel Safoni Cyn-Ysgol ar wahân.

Yn Wrecsam mae'r grwpiau amlasiantaeth yn hysbys fel 'Paneli Safoni' ac mae'r gynrychiolaeth yn cynnwys:

Rheolwr Cynhwysiant
Swyddogion Cynhwysiant
Gwasanaeth Seicoleg Addysg
Rheolwr Asesiad Statudol
Cynrychiolaeth gan Ysgolion Cynradd ac Uwchradd
Yr Adran Gyllid
Tîm Gwaith Cymdeithasol Addysg
Tîm Cefnogi Ymddygiad
Gweithwyr Iechyd Proffesiynol
Cynrychiolwyr Addysg Gynnar
Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar Arbenigol

9 Datganiadau

Ysgrifennir Datganiadau o Anghenion Addysg Arbennig os yw anghenion addysg arbennig y disgyblion yn sylweddol, ac na ellir darparu i ddiwallu'r anghenion yn rhesymol o'r adnoddau sydd fel arfer ar gael ar gyfer ysgolion a lleoliadau.

Os cyflwynir Datganiad o Anghenion Addysg Arbennig caiff ei rannu'n chwe rhan.

Rhan 1 Cyflwyniad yn cynnwys manylion personol y disgybl a manylion yr unigolyn (unigolion) gyda chyfrifoldeb rhiant.

Rhan 2 Mae'n nodi holl anghenion addysgol y disgybl fel y nodwyd yn ystod yr asesiad.

Rhan 3 Yn nodi'r ddarpariaeth sy'n ofynnol i ddiwallu'r anghenion a nodwyd yn rhan 2 ac yn cynnwys yr amcanion sydd angen eu diwallu, y ddarpariaeth i ddiwallu'r amcanion a threfniadau monitro. Dylid tystiolaethu amcanion byrdymor yn y Cynllun Addysg Unigol.

Rhan 4 Y math o ysgol sy'n gallu diwallu anghenion y disgybl.

Rhan 5 Yn disgrifio anghenion y disgybl nad ydynt yn ymwneud ag addysg.

Rhan 6 Yn disgrifio'r ddarpariaeth i ddiwallu unrhyw anghenion a nodwyd yn Rhan 5.

Gall y broses Asesiad Statudol gymryd hyd at 26 wythnos ac mae'r terfyn amser yn dechrau ar ôl derbyn y cais. Mae'r diagram llif Canllaw i Asesiad Statudol (tudalen 15) yn rhoi manylion am yr hyn sy'n digwydd yn ystod y broses o 26 wythnos.

Mae Awdurdod Lleol Wrecsam yn croesawu'r cyfle i weithio'n agos gyda rhieni ac fe'u hanogir i drafod cynnwys y broses Asesiad Statudol neu'r Datganiad gyda'u Swyddog Enwebedig, os yw'n briodol.

CANLLAW I ASESIADAU STATUDOL

Wythnosau (uchafswm)



10 Darpariaeth AAA

Gall y disgyblion dderbyn ystod o ddarpariaeth sy'n addas ar gyfer eu hoedran, gallu, dawn ac anghenion addysg arbennig. Mae darpariaeth o fewn Awdurdod Lleol Wrecsam yn cynnwys y canlynol:-

- Ysgolion y Brif Ffrwd
-
- Darpariaethau gydag adnoddau
- Ysgolion Arbenigol
- Darpariaeth Asesiad

10.1 Darpariaeth Cludiant ar gyfer disgyblion gydag AAA

Bydd pob penderfyniad ynglŷn â chludiant yn cael ei wneud gan y Panel Moderneiddio yn unol â pholisi cludiant o'r cartref i'r ysgol.

http://www.wrexham.gov.uk/english/education/transport_policy.htm

11 Apeliadau

Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
Special Educational Needs Tribunal for Wales

11.1 Apeliadau Statudol

Mae Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) yn dribiwnlys annibynnol. Maent yn delio ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau penodol ynglŷn â disgybl neu berson ifanc a'u haddysg. Mae TAAAC hefyd yn delio a hawliau gwahaniaethu o driniaeth annheg mewn ysgol sy'n gysylltiedig ag anabledd.

Mae TAAAC yn deilio â dadleuon sy'n ymwneud ag:

Apeliadau

- Gall rhiant a /neu ddisgybl wneud apêl i'r TAAAC yn erbyn y penderfyniadau canlynol a wnaed gan Awdurdod Lleol yng Nghymru:
  a) Adran 325(2) (apêl yn erbyn penderfyniad i beidio llunio datganiad);
  b) Adran 326(1)(apêl yn erbyn cynnwys y datganiad);
  c) Adran 328 (3)(b) (adolygiadau o anghenion addysgol);
  d) Adran 329 (2)(b) (asesiad o anghenion addysgol arbennig ar gais rhiant plentyn);
  e) Adran 329 (8)(b)(adolygiad o asesiad o anghenion addysgol ar gais corff cyfrifol);
  f) Paragraff 8(3)(b) o Atodlen 27 (newid yr ysgol a enwyd);
  g) Paragraff 11(2)(b) o Atodlen 27 (peidio â chynnal datganiad).

Hawliadau

- Gall rhiant a/neu ddisgybl gyflwyno hawliad i TAAAC ynglŷn â gwahaniaethau sy'n gysylltiedig ag anabledd mewn ysgolion yng Nghymru.

I gael rhagor o wybodaeth am TAAAC gweler eu gwefan http://sentw.gov.uk neu cysylltwch â rhif y llinell gymorth 0300 025 9800.

12 Trefniadau Monitro

12.1 Adolygu, diwygio neu roi'r gorau i'r Datganiadau

Mae Paragraff 9.1 y Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol bod yr holl Ddatganiadau AAA (heblaw rhai ar gyfer plant o dan 2 oed) yn cael eu **hadolygu'n flynyddol.** Mae hyn er mwyn i'r Awdurdod Lleol, yr ysgol, y disgybl a'r rhieni, a'r holl weithwyr proffesiynol eraill ystyried cynnydd y disgybl yn y 12 mis blaenorol ac a oes angen gwneud unrhyw addasiadau i ddisgrifiad anghenion y disgybl neu'r ddarpariaeth AAA a nodwyd yn y Datganiad.

Mae'r ysgol/lleoliad yn gyfrifol am gydlynu'r Adolygiad Blynyddol ac mae'n ddull o fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd a phriodoldeb parhaus y datganiad. Dylid cynnal y datganiadau pan fo'n ofynnol yn unig ac felly bydd canlyniad y cyfarfod adolygu yn un o'r canlynol:-

- Parhau â'r Datganiad ac nid oes angen unrhyw addasiad.
- Efallai y bydd angen newid y Datganiad.
- Efallai y daw'r Datganiad i ben.

13 Gwaith partneriaeth

Yn ogystal â gweithio'n agos gyda disgyblion a rhieni, mae Awdurdod Lleol Wrecsam yn cydnabod pwysigrwydd gweithio ar y cyd gydag ystod o asiantaethau proffesiynol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ysgolion a Llywodraethwyr
- Sefydliadau gwirfoddol
- Gwasanaethau Cyn-ysgol
- Bwrdd Iechyd Lleol
- Gwasanaethau eraill yr Awdurdod Lleol
- Gyrfa Cymru
- Sefydliadau Addysg Bellach

14 Hyfforddiant

Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu rhaglen reolaidd o hyfforddiant AAA ar gyfer ei ysgolion. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar anghenion hyfforddiant a nodwyd drwy ymgynghori â'r ysgolion, ffurflenni gwerthuso o'r cyrsiau blaenorol a thrwy flaenoriaethau hyfforddiant yr Awdurdod Lleol. Mae'r dulliau o hyfforddiant a chyngor a gynigir gan yr Awdurdod Lleol fel a ganlyn:-

- Hyfforddiant sy'n gysylltiedig â Chod Ymarfer AAA Cymru.
- Hyfforddiant Athrawon Newydd Gymhwyso:
- Digwyddiadau hyfforddiant mewn perthynas â meysydd penodol o AAA.
- Hyfforddiant Llywodraethwyr
- Hyfforddiant gan weithwyr proffesiynol iechyd
- Cyngor a chanllawiau ar gyfer unigolion neu grwpiau
- Rhannu arfer da

15 Cyllid

15.1 Cyflwyniad

Mae'r Awdurdod Lleol yn dyrannu cyllid i gefnogi disgyblion gydag AAA yn y dulliau canlynol:

- Cyllid wedi'i ddyrannu i'r ysgolion ar gyfer plant gydag AAA (drwy AWPU);
- Swm tybiedig o gyllideb yr ysgol gyfan o fewn AWPU wedi'i ddyrannu'n benodol ar gyfer plant gydag AAA (isafswm o 5% o gyfanswm cyllideb yr ysgol);
- Fformiwla cyllideb ddirprwyedig AAA;
- Cyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer dosbarthiadau Darpariaeth gydag Adnoddau;
- Cyllid neu adnoddau wedi'u dyrannu i ddisgyblion penodol;
- Adnoddau wedi'u dyrannu i'r ysgol Arbennig;
- Cyllid Canolog.

15.2 Cyllid wedi'i ddirprwyo drwy Uned wedi'i Bwysoli yn ôl Oedran Disgyblion (AWPU)

Mae Ysgolion y Brif Ffrwd yn Wrecsam yn derbyn mwyafrif eu cyllid drwy elfen gyllid sy'n seiliedig ar ddisgyblion: Uned wedi'i Bwysoli yn ôl Oedran Disgyblion (AWPU). Mae hyn yn golygu bod yr ysgol yn derbyn swm cyfartal o gyllid unigol ar gyfer pob disgybl o'r un oedran, gan gynnwys rhai gydag anghenion addysgol arbennig i dderbyn mynediad i gwricwlwm addas ac adnoddau priodol.

15.2.1 Cyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer AAA o fewn AWPU

O fewn yr AWPU mae'r Awdurdod Lleol yn disgwyl y bydd isafswm o 5% o'r cyllid dirprwyedig yn cael ei nodi i gefnogi AAA fel y nodwyd yng Nghod Ymarfer AAA 2002. Disgwylir i'r cyllid hwn ddiwallu'r cyfrifoldebau canlynol:-

- Cynllunio a darparu cwricwlwm diwygiedig ac wedi'i wahaniaethu i ddiwallu anghenion disgyblion ar weithredu yn y dosbarth/gweithredu gan yr ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy o God Ymarfer AAA 2002;
- Adnoddau (gan gynnwys cyflogi Cydlynwyr AAA a staff eraill) i ddiwallu anghenion disgyblion yn y camau hyn;
- Monitro ac adolygu cynnydd disgyblion unigol gydag AAA gan gynnwys cyswllt gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol;
- Datblygu a gweithredu polisi ysgol gyfan ar gyfer AAA.

15.3 Cyllid Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn Ysgolion Prif Ffrwd

Mae pob un o Ysgolion Cynradd ac Uwchradd yr awdurdod yn derbyn cyllid penodol yn ei gyllideb ddirprwyedig, drwy elfen fformiwla Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae'r fformiwla a gytunwyd ar gyfer dosbarthiad drwy gyfeirio at bedwar ffactor penodol a adroddwyd gan bob ysgol:

i) Canlyniadau Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol.

ii) Data yn ymwneud â nifer y disgyblion fel Gweithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy drwy ddatganiad CYBLD.

iii) Nifer y disgyblion gyda Saesneg fel Iaith Ychwanegol (Categorïau A-C).

iv) Nifer y disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim.

15.4 Cyllid Darpariaeth gydag Adnoddau

Ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam mae amrywiaeth o ddarpariaethau ag adnoddau arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd, sy'n darparu ar gyfer 4 maes AAA a nodwyd yng Nghod Ymarfer AAA. Mae disgyblion gydag anghenion sylweddol yn derbyn Darpariaeth ag Adnoddau drwy Banel Moderneiddio'r ALl.

Ar gyfer Darpariaeth gydag Adnoddau mewn Ysgolion Uwchradd mae cyllideb yn cael ei dyrannu yn unol â'r maes anghenion a chaiff disgyblion eu bandio fel y bo'n briodol.

Ar gyfer dosbarthiadau Darpariaeth gydag Adnoddau mewn Ysgolion Cynradd, dyrennir cyllideb yn unol â'r lefel o staff craidd sydd ei angen, fel y nodwyd yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth.

Yn ogystal â chyllid ar gyfer staffio, mae pob cyllideb darpariaeth ag adnoddau yn cynnwys elfen ar gyfer costau gwasanaeth a chyflenwadau a gwasanaethau.

15.5 Cyllid Ysgolion Arbennig

Caiff y gyllideb ei dyrannu yn unol ag anghenion unigol y disgybl fel y nodwyd yn y system fandio. Caiff hyn ei adolygu a'i gytuno rhwng yr Awdurdod Lleol a'r ysgolion yn flynyddol.

Mae balans cyllideb ddirprwyedig ysgol yn cael ei ddyrannu drwy gyfeirio at ffactorau sy'n gysylltiedig ag eiddo, data prydau ysgol am ddim a

chyfandaliadau penodol. Disgwylir i'r ysgol gynllunio ei gwariant blynyddol o fewn y gyllideb a ddyrannwyd.

15.6 Cyllid canolog ar gyfer disgyblion gydag AAA

Mae cyllid a gedwir yn ganolog ar gyfer AAA yn cael ei rannu i nifer o gategorïau gyda mecanweithiau cyllido amrywiol ar gyfer pob pennawd. Y prif gategorïau yw:-

- Costau Cefnogi Gwasanaeth: Mae hyn yn cynnwys y Rheolwr Cynhwysiant, Gwasanaeth Seicoleg Addysgol, Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg (gan gynnwys y tîm gweinyddol), Gwasanaeth Cefnogi Llythrennedd a Gwasanaeth Allgymorth Iaith a Lleferydd. *Cymhorthwyr Dysgu / Darpariaeth: mae Panel Safoni'r ALl yn dyrannu cyllid ychwanegol i ysgolion i gefnogi disgyblion unigol.* Bwriad y cyllid ychwanegol yw ategu at adnoddau presennol yr ysgolion. Offer Arbenigol (e.e. teclyn codi, gliniaduron, seddi arbenigol ac ati) yn cael eu prynu ar gyfer disgyblion unigol drwy gais a wnaed gan weithwyr proffesiynol iechyd.
- Mewn achosion eithriadol, lle nad yw darpariaeth arbenigol yr ALl yn briodol i ddiwallu anghenion y disgyblion gydag AAA, mae'n rhaid ystyried canfod darpariaeth y Tu Allan i'r Sir. Pan fo'n briodol, mae'r Awdurdod Lleol yn cadarnhau trefniadau cyllido ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Diogelu a Chefnogaeth a/neu'r Bwrdd Iechyd Lleol drwy'r Panel Comisiynu ar y Cyd.